31 Ionawr 2025

Annwyl

**ATISN23230**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 6 Ionawr. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- ***Copi o bob fersiwn o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth / Fframwaith Cydweithio neu ddogfen gyfatebol sydd wedi bodoli rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru ers sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg yn 2012, gyda dyddiadau diweddaru ar y dogfennau hynny.***

- ***Copi o strwythur staffio cyfredol isadran y Gymraeg yn cynnwys Prosiect 2050.***

**Ein hymateb**

Copi o bob fersiwn o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth / Fframwaith Cydweithio neu ddogfen gyfatebol sydd wedi bodoli rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru ers sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg yn 2012, gyda dyddiadau diweddaru ar y dogfennau hynny.

Amgaeaf y ddogfen ganlynol mewn ffeil pdf:
1. Atodiad 1: Cytundeb Fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, llofnodwyd Medi 2012.

Mae gweddill y dogfennau sy'n cael eu dal gyda'ch cais ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae dolenni yn cael eu darparu isod:
1. Cytundeb Fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, llofnodwyd Gorffennaf 2014: cytundeb-fframwaith-ar-gyfer-comisiynydd-y-gymraeg.pdf
2. Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd Awst 2019: memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-a-llywodraeth-cymru.pdf
3. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd Tachwedd 2024: Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU
4. Fframwaith cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg: ystadegau ac ymchwil gymdeithasol, llofnodwyd Hydref 2018: fframwaith-cydweithio-ar-gyfer-comisiynydd-y-gymraeg-ystadegau-ac-ymchwil.pdf
5. Fframwaith cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg: ystadegau ac ymchwil gymdeithasol, llofnodwyd Gorffennaf 2020: Fframwaith cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg: ystadegau ac ymchwil gymdeithasol | LLYW.CYMRU

Er bod y Fframweithiau Cydweithio Ystadegau ac Ymchwil (dyddiedig 2018 a 2020) yn dal i fod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, rwy'n nodi bod elfennau o'r fframweithiau hynny bellach wedi'u hymgorffori yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gytunwyd a chyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024.

Copi o strwythur staffio cyfredol isadran y Gymraeg yn cynnwys Prosiect 2050.

Mae copi o strwythur staffio Isadran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, dyddiedig Ionawr 2025 wedi'i atodi yn Atodiad 2.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am

adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir